



Nodion Seion

Pasg 2019

“Myfi yw'r Un byw; bûm farw, ac wele, yr wyf yn fyw byth bythoedd.” (Datguddiad 1:18)

Stori Cleopas

Wel, roedd Iesu wedi marw! Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w gredu. O! Roeddwn yn ei garu ac wedi bod yn ffrind iddo, a nawr, roedd e wedi mynd am byth. Doeddwn i ddim yn deall y peth.

Penderfynais fynd i bentref Emaus gyda'm ffrind, gan y byddwn yn fwy diogel yno nag yn Jerwsalem. Doedd neb yn gwybod beth fyddai'n digwydd i ffrindiau'r Iesu. Roedd e'n beth rhyfedd iawn, oherwydd roedden ni'n cerdded ac yn siarad am yr hyn a ddigwyddodd, siarad am y croeshoelio, siarad am Joseff o Arimathea yn dod i ofyn i Peilat am gorff Iesu i'w gladdu mewn bedd yn ei ardd, siarad am y newyddion a glywsom fod Iesu wedi atgyfodi a bod y bedd yn wag..... pan ymunodd dyn dieithr â ni.

Roeddwn i'n siarad cymaint ac yn teimlo mor drist, wnes i ddim sylwi rhyw lawer arno. Ond wrth gerdded ymlaen ac yntau'n sôn am yr hyn a ddywedodd y proffwydi yn yr Hen Destament am Iesu Grist, roeddwn yn teimlo y gallwn wrando arno am oriau.

Wedi cyrraedd Emaus dyma ni'n ei wahodd i mewn atom i gael swper ac yna, wrth eistedd wrth y bwrdd a gwrando arno'n dweud diolch i Dduw wrth dorri'r bara, sylweddolais mai Iesu oedd e! Yna gadawodd ni.

Roedden ni'n dau mor gyffrous, dyma ni'n cerdded yr holl ffordd yn ôl i Jerwsalem y

noson honno i ddweud wrth y disgyblion a ffrindiau eraill Iesu ein bod wedi ei weld yn fyw. Roedd yn wyrthiol!
(Seiliedig ar Luc, Pennod 24, adnodau 13-33)

“Y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw.”

(1 Corinthiaid 15:20)

Gweddï

Diolchwn i Ti, O Dduw am lawenydd y Pasg.
Diolchwn i Ti am y ffaith fod Iesu Grist wedi atgyfodi o'r bedd.
Diolchwn ei fod yn Arglwydd byw i ni heddiw.
Amen

Datganiad Organ

Nos Iau, 23 Mai am 7.00 o'r gloch bydd Tudur Jones, Tywyn, yn rhoi Datganiad Organ ar yr organ newydd yn Seion. Datganiad yn para awr yn unig fydd hwn ac yna cawn gymdeithasu a mwynhau paned o de yn y Festri. Bydd holl elw'r noson yn mynd at **Apêl Madagascar**. Tocynnau'n £5 ac ar gael oddi wrth Rhiannon ac Ann. (01970 615409 / 626987)



@seion 1816

www.seionaberystwyth.cymru

Yr Ysgol Sul

Oedfa Dewi Sant

Bore Sul 10fed Mawrth cawsom gyfle i ddathlu Dewi Sant yn ein hoedfa boreol. Cawsom gyflwyniadau gan bob dosbarth -o'r ieuengaf i'r hynaf. Ein neges oedd pwysigrwydd gwneud y pethau bychain. Ar derfyn yr oedfa roedd croeso i bawb ddod i'r festri am banded a chacen a chodwyd dros £300 i Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.



Aelodau a hunodd

Mrs Cassie Pugh (5.1.2019);
Mr William Price Jones (22.2.2019)
*"Am fod fy Iesu'n fyw,
Byw hefyd fydd ei saint"*

Cydynddeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliaid

Mrs Barbara Thomas (ewythr) Mrs Helena Rees (cyfnither) Mr Eric James (modryb) Mr Dyfed Bowen (modryb) Miss Evelyn Jones (brawd) Mrs Eileen Price Jones (priod) Mrs Eileen Williams (brawd) Mrs Angharad Edwards (ewythr) Mrs Thelma Wilson (nai), Mrs Gwyneth Jones (chwaer) Mrs Iona Jones (modryb)

Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth

Mrs Sylvia Jones, Mrs Joyce Evans, Mrs Dulcie James, Mr Alun Evans, Dr Edward Millward, Mrs Beryl Llewelyn, Erin Medi Roberts, Mrs Gwen Gruffudd

Llongyfarchiadau

I Meleri Pryse ar ennill gradd Meistr mewn Ffiseg o brifysgol Abertawe yn ddiweddar
I Eilir Pryse ar ennill gradd Doethuriaeth mewn Peirianeg o brifysgol Abertawe
I Gruffudd Rhys Davies ar ennill y Goron yn yr Eisteddfod Ryng-golegol yn Abertawe.

Y Gymdeithas

I ddechrau ail hanner y flwyddyn gyfredol o weithgareddau'r Gymdeithas cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol. Adroddodd Elizabeth Evans, y Cadeirydd, fel y bu cryn anhawster wrth geisio trefnu'r Rhaglen eleni ac o ganlyniad ymddiheurwyd na fu'n bosib cyhoeddi rhaglen ffurfiol. Manteisiodd Elizabeth hefyd ar drafod ail-drefnu blwyddyn y Gymdeithas er mwyn hwyluso trefniadau'r Rhaglen a hefyd i ddod a threfniadau ariannol y Gymdeithas yn unol â threfniadau'r Capel ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Ni chafwyd gwrthwynebiad i hyn. Yn ystod y flwyddyn aeth heibio dywedodd Thelma Wilson, y Trysorydd ei bod am ei rhyddhau o'r swydd. Gyda thristwch derbyniwyd cais Thelma ac yn y Cyfarfod Blynyddol hefyd rhoddwyd gair o ddiolch a basgedaid o flodau iddi am ei blynyddoedd maith o wasanaeth i'r Gymdeithas. Yn sgil hyn holwyd am wirfoddolwyr i ymuno â Phwyllgor y Gymdeithas ac mae swydd Trysorydd y Gymdeithas yn dal yn wag. Ein gwraig wadd am y noson oedd Alaw Griffiths a siarodd am ei llyfr 'Gyrru Drwy'r Storum'. Dioddefodd Alaw o iselder ofnadwy wedi geni ei merch fach Lleucu, a'r profiad erchyll, ar brydiau, fu'n ysbrydoliaeth iddi ysgrifennu ac adolygu'r gyfrol. Cafwyd sgwrs ddifyr a gonest gan Alaw a mawr yw ein diolch iddi am agor y drws ac ysgogi trafodaeth ar bwnc anodd dros banded.

Yn ein cyfarfod fis Chwefror, daeth Mererid Jones atom i drafod ei swydd fel Swyddog Ail-gylchu gyda'r Cyngor Sir. Cafwyd sgwrs hynod ddifyr a buddiol ganddi am eitemau gellid eu hail-gylchu o'n cartrefi ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth parthed lleoliadau'r 'ffatrïoedd' ail-gylchu lleol a chenedlaethol a'r cynlluniau sydd ar y gweill i gasglu rhagor o wastraff gwahanol i'r hyn a gesglir dyddiau yma. Neges Mererid fwy nag unrhyw beth oedd i bawb geisio ail-gylchu popeth o fewn ei allu er mwyn cynnal a gwella'r amgylchedd.

Yn ystod mis Mawrth anfonwyd gwahoddiad i Fethel, Talybont i ymuno â ni yn y Gymdeithas i Ddathlu Gŵyl Ddewi. Rhannwyd pawb i dimau gwahanol ar ddechrau'r cyfarfod a pharatowyd cwis ar ein cyfer gan Elizabeth (Cadeirydd) a Gwenda (Ysgrifennydd). Cafwyd sawl dadl, trafodaeth, a llawer o hwyl yn ystod yr orig a daethpwyd â'r noson i ben dros banded, pice man a bara brith.

Lowri Steffan fydd ein gwraig wadd yn ein cyfarfod nesaf ar 16eg Ebrill.

Os oes rhywun ag awydd helpu gyda pharatoi'r boreau coffi misol neu yn fodlon ymgymryd â swydd Trysorydd i'r Gymdeithas cysylltwch ag Elizabeth (01970832745) neu Gwenda (01970 822065).

Ymarferion y Gymanfa Ganu

Ebrill 3 Capel y Morfa Aberystwyth

Ebrill 10 Capel y Garn

Ebrill 17 Seion Aberystwyth

Ebrill 30 Bethel Talybont

Mai 8 Bethel Aberystwyth

12 Mai Y Gymanfa Ganu – Bethel Aberystwyth

22-25 Ebrill Gŵyl Gristnogol LLANW yn Ninbych-y-Pysgod

13-15 Mehefin Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Rhydymain

I'ch Dyddiadur..

9 Ebrill

7.30 cyfle i ddod at ein gilydd mewn awyrgylch anffurfiol i weddio dros waith a dyfodol Seion

Nos Iau Cablyd

Oedfa Ddwylieithog yn Eglwys Sant Paul

Bore Gwener y Groglith

Oedfa eglwysi Cymraeg y dref yng Nghapel y Morfa

12-18 Mai

Wythnos Cymorth Cristnogol - casglu o ddrws i ddrws.

13 Mai

Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol yn Eglwys y Drindod Sanctaidd

3 Mehefin

Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol yn Ffestri Seion

Pregethwyr mis Ebrill

- 7 Y Parchg. Andrew Lenny (bore Bedydd), Y Parchg. Andrew Lenny (hwyr Cymun)
- 14 Mr. Huw Roderick (bore), Y Parchg. John Tudno Williams (hwyr)
- 21 Sul y Pasg Mr.Gwilym Tudur (bore Tal-y-bont), Mr Gwilym Tudur (hwyr Seion)
- 28 Y Parchg. J.E.Wynne Davies (bore), Mr. Gruffydd Rhys Davies (hwyr)

Pregethwyr mis Mai

- 5 Miss Beti Griffiths (bore), Dr. Rhidian Griffiths (hwyr Cymun)
- 12 Oedfa yn Bethel Stryd y Popty (bore), Y Gymanfa Ganu yn Bethel (5-30 hwyr)
- 19 Y Parchg. Peter Thomas (bore Cymun ym Methel), Mr. Gruffydd Rhys Davies (hwyr)
- 26 Mr. Huw Roderick (bore), Y Parchg. Judith Morris (hwyr)

Pregethwyr mis Mehefin

- 2 Y Parchg. Peter Thomas (bore), Y Parchg. Andrew Lenny (hwyr Cymun)
- 9 Y Parchg. D.Eirian Rees (bore), Y Parchg. D.Eirian Rees (hwyr)
- 16 Mr. Huw Rodeick (bore), Mrs Delyth Morgans Phillips (hwyr)
- 23 Y Parchg. Andrew Lenny (bore), Y Parchg Andrew Lenny (pnawn - Soar y Mynydd (dim oedfa hwyr)
- 30 Mr. Geraint Evans (bore Bethel Tal-y-Bont), Mr. Alun Lenny (hwyr 5 o'r gloch)

Dymunwn dynnu eich sylw'n benodol **at rai Suliau** pan fyddwn naill ai'n ymuno ag aelodau Bethel Tal-y-bont neu'n dilyn trefn wahanol yn Seion:

21 Ebrill – Oedfa'r bore ym **Methel, Tal-y-bont** am **10.00** o'r gloch.

12 Mai – Cymanfa Ganu ym **Methel, Stryd y Popty**.

19 Mai – Oedfa'r bore ym **Methel, Stryd y Popty** am **10.00** o'r gloch.

23 Mehefin – Oedfa'r bore am **10.00** o'r gloch yn **Seion** ac am **2.00** o'r gloch yn **Soar y Mynydd**. Y ddwy oedfa dan arweiniad y Parchg. Andrew Lenny.

30 Mehefin – Oedfa'r bore ym **Methel, Tal-y-bont** am **10.00** o'r gloch / oedfa'r hwyr am **5.00** o'r gloch yn **Seion**.

Os byddwch eisiau lifft i fynychu'r oedfaon yn Nhal-y-bont neu Soar y Mynydd gofynnir i chwi'n garedig nodi eich enw ar y papur priodol yng nghyntedd y capel. Bydd y swyddogion yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar eich cyfer.